



## ASTUDIAETH ACHOS PROTOCOL RHANNU GWYBODAETH – THERAPIAU SIARAD PARABL (GOGLEDD CYMRU)

### CYFLWYNIAD

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y broses datblygu ISP, o'r penderfyniad i rannu gwybodaeth ac yna datblygu ISP, i gael cymeradwyaeth gan dîm WASPI a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan. Rydym yn ddiolchgar i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn enwedig Wendy Hardman, y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, am y wybodaeth a ddarparwyd i gynorthwyo i ddatblygu'r astudiaeth achos hon.

### CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r gwasanaeth Therapi Siarad Parabl yn darparu ymyriadau therapiwtig tymor byr ar gyfer unigolion sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl cyffredin neu ddigwyddiadau heriol mewn bywyd a allai fod yn effeithio ar eu lles emosiynol.

Mae gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau Hunangymorth, Therapiau Ymddygiad Gwybyddol Ar-lein, Grwpiau Therapiwtig, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Gwasanaethau Cwnsela, yn cael eu darparu gan gonsortiw m o elusennau, sy'n ategu triniaethau eraill sydd ar gael gan wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol a Chymunedol. Mae gwasanaethau ar gael mewn ystod o leoliadau ar draws gogledd Cymru, ac mae apwyntiadau ar gael ar y penwythnos a chyda'r nos.

Mae angen i sefydliadau partner rannu gwybodaeth bersonol defnyddwyr gwasanaeth er mwyn darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol, a datblygwyd ISP i gefnogi hyn.

Mae gweithredu'r ISP hwn wedi rhoi hyder i'r sefydliadau partner bod rhannu gwybodaeth bersonol yn bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data a Chod Ymarfer Rhannu Data y Comisiynydd Gwybodaeth<sup>1</sup>. Roedd yn caniatáu i'r sefydliadau partner ystyried a chofnodi eu harferion mewn **ffordd resymegol a strwythuredig**. Mae hyn wedi hwyluso **llif lyfnach o wybodaeth** rhwng sefydliadau a **gwasanaethau mwy effeithiol**.

### PENDERFYNU BOD ANGEN ISP

Cysylltwyd â Thîm Llywodraethu Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) gan Arweinydd Gwasanaeth Parabl BCUHB a amlinellodd yr angen i rannu gwybodaeth am unigolion, gan gynnwys gwybodaeth sensitif yn ymwneud â chyflyrau meddygol a gwybodaeth gyfrinachol arall fel eu hamgylchiadau personol. Cynghorodd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth y byddai gweithio trwy'r **broes datblygu ISP** yn helpu i amlygu ystyriaethau perthnasol er mwyn sicrhau bod yr arferion

<sup>1</sup> [http://ico.org.uk/for\\_organisations/data\\_protection/topic\\_guides/data\\_sharing](http://ico.org.uk/for_organisations/data_protection/topic_guides/data_sharing)



gweithio arfaethedig yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a darparu dogfen weithio ymarferol ar gyfer y rhai hynny sy'n ymwneud â'r prosiect.

Roedd llawer o'r partneriaid a oedd yn ymwneud â'r prosiect – BCUHB, Awdurdodau Lleol yng ngogledd Cymru a rhai o'r partneriaid sector gwirfoddol – eisoes yn **Ilofnodwyr y Cytundeb** ac yn ymwybodol o egwyddorion a diben WASPI. Roedd angen argyhoeddi rhai partneriaid o werth y broses datblygu ISP.

Cyn cyfarfod cychwynnol y **Grŵp Gorchwyl a Gorffen** ISP, trefnodd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn BCUHB weithdy ymwybyddiaeth o WASPI ar gyfer cynrychiolwyr partneriaid a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Parabl. Roedd hyn wedi rhoi gwell ymwybyddiaeth iddynt o WASPI ac wedi esbonio pam yr oedd angen ISP. Defnyddiodd y Tîm Ganllaw Rolau a Chyfrifoldebau WASPI<sup>2</sup> i nodi'r cynrychiolwyr mwyaf priodol i gymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Darparwyd y rolau Hwylusydd a Chydlynnydd ISP gan BCUHB, sef y sefydliad partner mwyaf. Roedd yr Hwylusydd ISP yn aelod o'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ac roedd ganddo wybodaeth gadarn am yr Ddeddf Diogelu Data a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Y BROSES DATBLYGU ISP

'**Gwneud unwaith a rhannu**' yw un o gysyniadau allweddol WASPI; gall sefydliadau weld Protocolau Rhannu Gwybodaeth a ddatblygwyd yn flaenorol (sydd oll ar gael ar wefan WASPI) a'u haddasu ar gyfer eu dibenion eu hunain. Roedd BCUHB yn gyfarwydd â'r cysyniad hwn. Fodd bynnag, nid oedd ISP tebyg ar gael y gellid bod wedi'i addasu, ac felly crëwyd ISP newydd sbon.

Cynhaliwyd tri chyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod cynnwys yr ISP ac i nodi'r llofoedd gwybodaeth rhwng sefydliadau partner. Roedd y Cydlynnydd ISP eisoes wedi sefydlu perthnasoedd gweithio gyda chysylltiadau perthnasol yn y sefydliadau partner, ac roedd hyn wedi'i gwneud yn haws trefnu cyfarfodydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cymerodd yr Hwylusydd nodiadau ym mhob un o'r cyfarfodydd a lluniodd y templed ISP yn seiliedig ar y trafodaethau. Roedd **presenoldeb cyson** yng nghyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn elfen allweddol o'u llwyddiant.

Yn yr achos hwn, ystyriwyd bod y broses o lunio'r templed ISP yn un syml; ar ôl gweithio gyda fersiwn tri y fframwaith yn flaenorol, roedd BCUHB o'r farn bod fersiwn pedwar y templed yn haws o lawer i'w defnyddio a'i dilyn.

Cymerodd y broses ddatblygu – o benderfynu bod angen ISP i'w gyflwyno i dîm WASPI ar gyfer sicrhau ansawdd – tua phedwar mis.

<sup>2</sup> <http://www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50180>



## SICRHAU ANSAWDD

Dosbarthwyd y templed ISP gorffonedig ymhlith yr holl bartneriaid ac, yn dilyn eu cymeradwyaeth, fe'i cyflwynwyd i Dîm Gwasanaeth WASPI ar gyfer **sicrhau ansawdd**. Mae'r broses sicrhau ansawdd wedi bod yn rhan ganolog o'r broses datblygu ISP. Mae'n caniatáu ar gyfer gwiriad diduedd sy'n canolbwyntio ar ddefnydd cyson o'r templedi.

Roedd BCUHB o'r farn bod tîm WASPI wedi gweithio'n gyflym ac roedd yn gwerthfawrogi manteision adolygiad annibynnol. Roedd angen gwneud mân newidiadau i'r ddogfen – sef y Tabl Llif Gwybodaeth – er mwyn sicrhau ei bod yn **gyson â'r canllawiau ar ddatblygu ISP**. Roedd angen ymhelaethu mwy wrth ddisgrifio cyfnewid gwybodaeth ac egluro'r math o wybodaeth y gellid ei rhannu.

Yn dilyn sylwadau gan dîm WASPI, dychwelwyd yr ISP ddwywaith i BCUHB cyn iddo gael ei gymeradwyo trwy'r broses sicrhau ansawdd a'i gyhoeddi ar wefan WASPI.

Adroddodd BCUHB ei bod wedi cymryd peth amser i gael **datganiadau llofnodedig o dderbyn a chyfranogi gan yr holl bartneriaid**. Cam olaf y broses yw hwn ac mae'n bwysig er mwyn dangos ymrwymiad sefydliadol i ISP. Mae'n bwysig bod sefydliadau'n cytuno ar ddulliau mewnol ar gyfer cytuno ar gyfranogiad mewn Protocolau Rhannu Gwybodaeth a'i gofnodi; dyma'r ffordd y gallant ddangos ymrwymiad i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

## EFFAITH YR ISP

Er nad oes dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u sefydlu y gellir eu defnyddio i fesur effaith yr ISP, mae BCUHB wedi adrodd am fwy o hyder a pharodrwydd i rannu gwybodaeth rhwng y sefydliadau partner sy'n ymwneud â'r ISP hwn.

## CYFEIRIADAU

Prosiect ISP ar gyfer Therapiau Siarad PARABL – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (addaswyd yn 2014) ychwanegwyd gan Dîm Gwasanaeth WASPI, ar gael yn <http://www.waspi.org/docopen.cfm?orgid=702&id=238970> (cyrchwyd 26 Medi 2014)

Therapiau Siarad PARABL – (addaswyd yn 2014) ychwanegwyd gan Therapiau Siarad PARABL, ar gael yn <http://www.parabl.org.uk/english/> (cyrchwyd 26 Medi 2014)